

AROS YN DDI-FAI YNG NGHANOL CENHEDLAETH WYRGAM

Nodyn i'r siaradwr:

Argraffwch ym meddwl y gynulleidfa yr angen i aros yn ddi-fai yng ngolwg Duw, yn cyfarfod â'i ofynion yn llawn. Helpwch nhw i ddeall fod hynny'n bosib' i ddynion amherffaith. Bydd bod yn ymwybodol o ddeniadau'r genhedlaeth wyrgam hon yn ein helpu i gadw'n safle di-fai gyda Duw.

RHAID I WEISION DUW FOD YN DDI-FAI (3 mun.)

Mae gweision Duw wedi ceisio aros yn ddi-fai, di-nam erioed

'Roedd Noa yn "berffaith yn ei oes" (Gen 6:9)

'Roedd Jacob yn enwog am fod yn ddi-fai, o'i gyferbynnu â'i frawd, Esau (Gen 25:27)

Dywedwyd am Job gan Jehofah ei fod yn "gywir" (Job 1:8)

'Roedd Sachareias ac Elisabeth, rhieni Ioan Fedyddiwr, yn ymddwyn yn ddi-fai o flaen Duw (Luc 1:6)

Mae bod yn ddi-fai yn rhoi inni gydwybod lân, perthynas dda â'n cyd-ddyn, ac, yn fwy na dim, enw da gyda Jehofah

Gan bwysleisio hyn, fe roddodd Paul gyngor eglur yn Philipiaid 2:14, 15 (Darllenwch)

AMHERFFAITH OND DI-FAI (6 mun.)

'Fedr bodau dynol amherffaith fod yn ddi-fai? Medran'

Wrth ddisgrifio bodau dynol, rhaid edrych ar yr ymadrodd "di-fai" yn gymharol, nid yn ddiamod (*it-1 337*)

I'r graddau y cyflawnwn yr hyn mae Duw yn ei ddisgwyl gennym, 'rydym yn ddi-fai

Fel crybwyllwyd eisoes, haeddai gwŷr ffydd yr hen amser gael eu galw'n "ddi-nam" neu'n "ddi-fai"

Nid am eu bod nhw'n ddi-wall neu'n rhydd rhag gwneud drwg yr oedd hyn, ond oherwydd bod eu duwiolfrydedd a'u teyrngarwch i Dduw, o fewn y cyfyngiadau oedd yn bosib' iddyn' nhw ymgynraedd atynt, yn gyflawn, gadarn

'Roedden' nhw'n cwrdd â'r gofynion 'roedd Jehofah yn eu disgwyl gan fodau dynol ffyddlon oedd yn ddiffygiol gan amherffeithrwydd

Bu iddynt amlygu "calon berffaith" tuag at Jehofah (2Bren 20:3)

Pryd bynnag y cyfeiliornent, fe dderbynient eu cywiro a'u disgyblu yn ddiymhongar (Job 42:1-6; Salmau 51:1-4, 7-11)

Er gwaetha' eu camweddau a'u gwendidau, fe wnaethant yr hyn a ofynnai Duw ganddynt, a 'doedd Duw *ddim yn gofyn rhagor ganddyn' nhw nag y gallent ei gyflawni (w71 9/15 565-6)*

'Roedd Jehofah Dduw wedi'i blesio â'u haddoliad nhw

Cysur yw gwybod y bydd yn ymwneud â ni yn yr un ffordd ddeallgar, gan ofyn gennym dim ond yr hyn sy' o fewn ein gallu i'w gyflawni

Yn ogystal, mae gennym fudd yr aberth bridwerthol (Heb 7:25)

BYD HEDDIW YN WYRGAM A GWRTHNYSIG (10 mun.)

Oddi ar gwmp Adda, mae ffordd mwyafrif y ddynoliaeth wedi bod yn wyrgam, yn anufudd i Dduw

Wrth i ddrygioni gynyddu, fe weithredodd Duw

Ystyriodd Jehofah fod y ddaear wedi'i llygru a'i difetha oherwydd ymddygiad drwg pobl yn adeg Noa, ac fe'u hysgubodd nhw ymaith drwy gyfrwng y Dilyw (Gen 6:11-13; 7:1)

Tua 2,400 o flynyddoedd yn ddiweddarach, ffurfiar' Iddewon genhedlaeth wyrgam a haeddai ei difa (*w95 11/1 14*)

Gwrthodasant y Meseia a yrrwyd gan Dduw a'i hoelio ar bren (Luc 17:25)

Daeth distryw i ran y byd Iddewig hwnnw yn 70 C.C.

Mae byd heddiw yn waeth na'r rheiny yn amser Noa a'r ganrif gyntaf

Mae drygioni, llygredd, ac anfoesoldeb yn rhemp ymhlith pobl y genhedlaeth bresennol hon

Mae cwmp moesau, moesoldeb, ac egwyddorion yn gynyddol amlwg

Gellir rhoddi llawer o'r bai am hyn ar ddiraddiad ysbrydol crefydd Fabilonaid

Canlyniad hyn yw casineb chwerw rhwng grwpiau crefyddol, hiliol, ethnig, a chenedlaethol; llawer o euogrwydd gwaed (*w94 12/15 28-9*)

Esgusodir drwgweithredu, a'i gymeradwyo hyd yn oed

Caniateir a goddefir arfau erchyll, erthylu, a chynhyrchion megis tybaco a chyffuriau sy'n dod ag angau yn eu sgil

Mae Cristnogion i ymwrthod â ffyrdd drwg y byd ac i aros yn ddi-fai (Eff 4:17-19; 1Thes 5:23)

Mae Satan yn ceisio rhwydo'r rhai anwyliadwrus, i geisio ganddynt golli'u safle di-fai (1Pedr 5:8)

Mae'r diwydiant adloniant yn annog dull byw anfoesol, gwyrddroadau o bob math, a diffyg parch at fywyd ac urddas dynol (*g92 11/8 5-7*)

Mae gemau fideo yn denu'r dibrofiad i fyd grotésg a chythreulig (*g*95 5/8 25)
Mae barusrwydd ac uchelgais yn ffactorau ysgogol sy'n cymell y byd
Os deawn i arfer â ffyrdd y byd, gallwn gael ein dadsensiteiddio a dechrau eu derbyn yn rhywbeth normal
Sut medrwn ni lwyddo i ymwrthod â dylanwad Satan?

BRWYDRWCH YN GALED I FOD YN DDI-FAI (22 mun.)

Rhaid i'r rhai sy'n gwir garu Jehofah fod yn fodlon ymladd brwydr ysbrydol i sicrhau a chadw difeiedd ymhlith y genhedlaeth wyrngam hon (*Jwdas* 3)

Mae Jehofah yn gofyn ymgysgriad eiddigeddus, felly rhaid ymwahanu'n llwyr oddi wrth bob athrawiaeth ac arfer halogedig (*2Cor* 6:14-18; *Dat* 18:4; *kl* 48-52)

Osgowch bob math o ysbrydegaeth (*Deut* 18:10-14; *kl* 111-17)

Meithrinwch gariad at yr hyn sydd sanctaidd a glân *a* chasineb at yr hyn sydd ddrwg (*Amos* 5:15a)

Byddwch yn wylidwrus ynglŷn â digwyddiadau cymdeithasol sy'n gwahodd bydolrwydd ac anghymedroldeb (*1Cor* 10:31; *w*92 8/15 16-20)

Byddwch yn wylidwrus yn eich ymddygiad â'r rhyw arall (*Eff* 5:3, 4)

Parchwch awdurdod sefydledig fel trefniant Duw (*w*94 7/1 19-23)

Mae hyn yn cynnwys bod yn ddarostyngedig i lywodraethwyr bydol a thalu trethi (*Rhuf* 13:1-7)

Gwragedd i fod yn ddarostyngedig i'w gwŷr, plant i ufuddhau i'w rhieni (*Eff* 5:22; 6:1, 2)

O fewn y gynulleidfa, dylid dangos parch i'r henuriaid ac eraill sy'n arwain (*Heb* 13:17)

Yn eu tro, rhaid i'r rhai sydd ag awdurdod osgoi ffafiaeth, nepotiaeth, camddefnyddio gallu (*Iago* 2:9; *w*86 8/15 14-18)

Byddwn yn onest ac union yn ein holl weithgareddau (*Heb* 13:18)

Osgowch ddefnyddio arferion busnes amheus, yn manteisio ar ein cysylltiadau Cristnogol (*w*86 11/15 15-19)

Osgowch abwyd materoliaeth a "chariad at arian" (*1Tim* 6:9, 10)

Dilynwch ffordd heddwch a gwir gariad Cristnogol (*Rhuf* 12:18-21; *Col* 3:12-14; *w*71 9/15 567-8)

Gweddiwch yn gyson am gymorth Duw ac am ei ysbryd sanctaidd (*Luc* 11:13; 18:1)

Mae bod yn ddi-fai yn golygu nid yn unig osgoi cwrs anghywir ond hefyd weithredu'n ymarferol i wneud yr hyn y dylem fod yn ei wneud

Cadarnhewch eich ysbrydolrwydd drwy ddarllen y Beibl yn rheolaidd, a mynychu'r cyfarfodydd (*Salmau* 1:2; *Heb* 10:25)

Angen gweithredu i gyhoeddi'r newydd da

Rhaid "gofalu am yr amddifad a'r gweddwon" ac eraill sydd mewn angen (*Iago* 1:27)

Defnyddiwn ein hamser, ein hadnoddau, a'n talentau i gefnogi gwaith y Deyrnas; cynhaliwn enw ac awdurdod brenhinol Jehofah (*2Cor* 8:12; 9:7)

Mae'n rhaid i'r bwlch sydd rhwng gwir Gristnogion a'r byd ledu'n barhaus

Y syniad yw gweld pa mor bell y medrwn gadw draw oddi wrth ddibyn gresynusrwydd, nid pa mor agos y medrwn agosáu ato

Os efelychwn y byd, neu fod fel na fedrir gwahaniaethu rhyngom a'r byd, yna 'rydym yn gwaradwyddo Jehofah a heb fod yn ddi-fai yn ei olwg

Gallwn ddod yn faen tramgwydd i rai didwyll sy'n ceisio'r gwirionedd

Rhaid i'r rhai sydd wedi bod yn y gwirionedd am hir fod yn ofalus rhag llithro'n araf gyda'r llif (*Heb* 2:1)

MAE JEHOFAH YN CYMERADWYO EI RAI DI-FAI (4 mun.)

Yn yr amser y diwedd argyfyngus sydd ohoni, mae'n bwysig inni gael ein hystyried yn ddi-fai gan Jehofah (*2Pedr* 3:14)

Dim ond y di-fai fydd yn cael Ei amddiffyn a'i fendith (*Salmau* 15; *Diar* 2:21, 22)

Wrth aros yn ddi-fai yng nghanol y genhedlaeth wyrngam hon, fe roddwn ateb i herio Satan a dod â hyfrydwch i Jehofah (*Diar* 11:20; 27:11)

(Glynwch yn glôs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir na gwneud sylwadau arnynt)